Cofnodion cyfarfod 13 Rhagfyr 2016 a gynhaliwyd yng Nghapel Bethania am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Iestyn Harris	Daniel Williams	
Nerys John	Casi Roberts	
George Smith	Sarah Riley	
Miss Ashley		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	Cynghorydd Sir - Gareth Griffiths	
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
1.1	Croesawyd yr aelodau gan Gadeirydd i gyfarfod mis Rhagfyr. **Ymddiheuriadau**: Yasmin Khan, Peter Simpson, Gruff John, Aled Emyr.	
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD**	
	Dywedodd y Cynghorydd ei fod wedi mynychu sawl cyfarfod ond nid oeddynt o ddiddordeb i'r pentref. Er hynny roedd wedi ymweld â'r ysgol gynradd a'i fod am weithio ar brosiect gyda blynyddoedd 5 a 6 ar y mater o Faw Cŵn o amgylch y pentref, bydd hefyd yn gweithio yn agos gyda Chyngor Gwynedd. Mae problemau parcio mewn sawl man yn y pentref yn enwedig ar Ffordd Caernarfon, Augusta Place, Stryd y Wyddfa a Stryd Menai. Mae gorr-yrry ar hyd ffordd Caernarfon. Dywedodd hefyd bod gadael biniau sbwriel o fewn y briffordd yn achosi problemau. Bydd yn trafod y materion hyn gyda Chyngor Gwynedd.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
4.0	**COFNODION**	
4.1	Cyflwynwyd cofnodion 8fed o Dachwedd 2016. **Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir wedi fan newidiadau i eitem 5.6 ac yna e'u harwyddo**.	
5.0	**MATERION YN CODI**	
5.1	**Hysbysfyrddau -** angen gosod yr hysbysfwrdd yn y doc. Bydd y Cadeirydd gwneud cais am bris ar gyfer ei godi gan Wyn Morris.	
5.2	**Toiledau** - dim datblygiad wedi bod ar y mater.	
5.3	**Biniau Halen** derbyniwyd llythyr pellach gan Gyngor Gwynedd ar bris biniau halen, nid oedd y llythyr yn glir os yw halen 2016 - 2017 am ddim neu yn costio £80 y bin a bod biniau halen yn costio £40 yn 2017 - 2018. Y Clerc i ysgrifennu i dderbyn eglurhad. Y Cynghorydd Sarah Riley i baratoi geirfa ar gyfer poster i'w osod ar y biniau.	**CLERC**
5.4	**Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru a'r Gydnabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2017** - nodwyd y	

	wybodaeth	
5.5	**Grid Cenedlaethol -** Dywedodd y Cadeirydd ei fod ef a rhai aelodau o'r Cyngor wedi mynychu cyfarfod ar y cyd gyda Chyngor Cymuned Pentir a'r Grid Cenedlaethol. Bydd yn rhannu'r ymateb ysgrifenedig a'r aelodau am sylwadau cyn ei fod yn cael ei anfon at y Grid Cenedlaethol.	**DW**
5.6	**MSFOMA -** bydd cyfarfod nesaf nos Fercher, bydd Roberts of Portdinorwic yn bresennol i drafod y wystrys. Dywedodd y Cadeirydd bod angen cynrychiolydd ar y grŵp, ar hyn o bryd mae cyfarfod bob tri mis. Roedd y Cynghorydd Iestyn Harris yn barod i fynychu.	
5.7	Cofnodwyd bod llythyr o ddiolch wedi ei anfon i Felingylchu am eu rhodd.	
5.8	Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi trafod gwaith o fewn y gymuned gan y Tîm troseddu. Byddai clirio a glanhau arhosfannau bysiau o fudd i'r gymuned a hefyd byddai math yma o waith yn gallu cael ei gwblhau gan y tîm. Mae'r person oedd yn gweithredu gwaith cymunedol bellach yn awyddus i wenud yr un gwaith yn wirfoddol.	
5.9	Trafodwyd hefyd y mater bod biniau sbwriel Lan y Môr yn cael eu defnyddio ar gyfer sbwriel cartref.	
6.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y NEUADD**	
6.1	Cafwyd adroddiad llafar gan y Cadeirydd ynglŷn â'r sefyllfa bresennol ar do'r neuadd. Roedd adroddiad ar y tamprwydd wedi ei dderbyn gan Ap Tomos. Cafwyd hefyd adroddiad gan yr adeiladwr. Gobeithir cynnal ymweliad safle yn fuan. Bydd gosod 3 blind yn y cyntedd yn costio £432 gan gynnwys TAW. Roedd adroddiad Snowdonia Fire Protection yn annog y Cyngor i osod diffoddwr CO2 yn y gegin.	**CLERC**
7.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD**	
7.1	Cadarnhawyd gwariant mis Tachwedd a derbyn yr adroddiad misol.	
7.2	Ystyried y gwariant o fewn cymhariaeth y cyllid draft. Derbyniwyd y gymhariaeth.	
7.3	Cynllun Pensiwn - cydnabuwyd dyletswyddau'r Cyngor ynglŷn â rheolau newydd ynglŷn â phensiynau. Nid yw'r Cyngor yn cyrraedd y trothwy.	
7.4	Etholiadau 2017 - gwybodaeth yn unig	
8.0	**GOHEBIAETH**	
8.1	**Cefnogaeth Gorfforaethol Gwynedd - Bod yn Gynghorydd -** Gwybodaeth yn unig.	

8.2	**Caernarfon & Bontnewydd A4087 - Adroddiad Datblygu Cynaliadwy -** gwybodaeth yn unig.	
8.3	**Parc Cychod y Felinheli -** Gwybodaeth yn unig. Y Wybodaeth wedi ei roi ar y wefan.	
8.4	**Adran Rheoleiddio Gwynedd - Newid yn nhrefniant ad-daliad costau llwybrau Cyhoeddus -** Gwybodaeth yn unig. Y Clerc i anfon ymlaen yr holiadur.	**CLERC**
9.0	**ADRODDIAD COFEB Y CLOC**	
	Peter Wray y pensaer wedi bod yn arbrofi gyda lampau o fewn y cloc ar gyfer cael gwared â'r cysgodion. Mae yn credu ei fod wedi ei ddatrys a bydd yn trefnu i'r gwaith gael ei wneud.	
10.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
10.1	C16/1423/20/LL - codi decin pren ar flaen yr adeilad - Hafan 8 Trem y Foel, Y Felinheli LL56 4UZ - DIM GWRTHWYNEBIAD.	
10.2	C16/1558/20/LL - gosod balcony newydd yn lle'r balcony presennol a chodi estyniad deulawr cefn ac ochr - Bron Dalar, 14 Caernarfon Road, Y Felinheli LL56 4NQ - DIM GWRTHWYNEBIAD.	
11.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT**	
11.1	Dim adroddiad. Mae rhaid pobl yn parhau i gwyno am gyflwr Mynwent yr Eglwys. Y Clerc i ddod a'r mater i sylw'r Parchedig Ganon Robert Townsend.	
12.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
12.1	Y Don - Peter Simpson yn ymchwilio i rywogaeth y lafant.	
13.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU BYSIAU A MEINCIAU**	
13.1	Archwiliad y llwybrau wedi ei gwblhau. Mater o Lwybr Heulyn yn achos o gonsyrn i'r Cyngor oherwydd nad yw yn gallu cael ei ddefnyddio a hwnnw yn llwybr pwysig o fewn y gymuned. Y Clerc i Drefnu ymweliad safle gyda Chyngor Gwynedd.	**CLERC**
13.2	Cofnodi diolch i berchennog Tŷ Nant am ei pharodrwydd i osod bylbiau gwanwyn o fewn y cwch ar ddechrau'r pentref.	**CLERC**
14.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
14.1	Dim	
15.0	**GWEFAN**	
	Draft wedi ei gwneud.	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 09:40	
Llofnod:		Dyddiad: